

YMGYNGHORIAD AR ORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (GGDC) BANGOR - 31.07.2019 – 06.09.2019

CYSYLLTIADAU A WNAED

1	CYFFREDINOL
	Agorwyd yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor ar 30 Gorffennaf, a chyhoeddwyd datganiad i'r wasg ar 31 Gorffennaf.
	Rhodddwyd copiâu o'r gorchymyn drafft, map o ardal y gorchymyn, nodiadau esboniadol ac amlenni ymateb yn Llyfrgell Bangor, Storiel a'r Ganolfan Byw'n Iach
	Rhodddwyd hysbysiadau ar Twitter a Facebook o bryd i'w gilydd yn ystod cyfnod yr ymgynghori
	Rhodddwyd sylw a chyhoedduswyd i'r ymgynghoriad gan y Daily Post a gwefan Bangor Aye ar ddiwrnod cyntaf yr ymgynghoriad.
	Bu adroddiadau ar wefan newyddion y BBC a'r newyddion cenedlaethol ar y teledu
2	PENODOL
	Cysylltwyd â'r sefydliadau â ganlyn, drwy e-bost ar eu cais i'r mwyafrif, ac anfonwyd rhai llythyrau. Rhodddwyd gwybodaeth iddynt, a gwahodddwyd hwy i ymateb i'r ymgynghoriad -
a	Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
b	Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru
c	Cyngor Dinas Bangor
d	Cartrefi Cymunedol Gwynedd
e	Cadeirlan Bangor
f	Y Gwasanaeth Tân ac Achub
g	Trafnidiaeth Cymru
h	Prifysgol Bangor
i	Pontio
j	Ardal Gwella Busnes Bangor
k	Ysbyty Gwynedd
l	Pum aelod lleol ardaloedd y gorchymyn
m	Rhai gwasanaethau o fewn yr ALI – Gwasanaethau Oedolion, Amgylchedd, Economi, Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

YMATEBION

Derbyniwyd cyfanswm o 156 o ymatebion, o'r rhain –

- roedd 79 o'r ymatebion yn nodi'n benodol eu bod yn cefnogi'r gorchymyn.
- Rhoddodd 66 arall wybodaeth oedd yn cefnogi'r safbwynt bod problem ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bodoli ym Mangor.
- Cafwyd pedwar ymateb nad oeddynt yn cefnogi'r gorchymyn.
- Nid oedd pump o'r ymatebion yn berthnasol i'r ymgynghoriad ar y gorchymyn.
- Teimlai dau o'r ymatebwyr nad oedd ganddynt wybodaeth ddigonol i alluogi iddynt gyfrannu.

Mae'r tabl isod yn crynhoi prif themâu'r sylwadau a dderbyniwyd. *Noder fod rhai o'r ymatebion yn cynnwys mwy nag un, neu nifer, o'r materion isod.*

Lle bo'n berthnasol, rydym wedi rhannu'r sylwadau gyda phartneriaid perthnasol, megis yr Heddlu, Gwarchod y Cyhoedd (trwyddedu), yr adran gyfreithiol ac ati.

MATERION A NODWYD	NIFER YR YMATEBION
Wedi bod yn dyst i achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau a/neu alcohol	53
Wedi bod yn dyst i ymddygiad yn ymwneud â chardota sy'n ymosodol, yn codi ofn neu'n fygythiol	35
Yn bryderus am dranc cyffredinol y Stryd Fawr, o ran nad yw ymweld â'r stryd bellach yn brofiad pleserus	23
Gofyn am ehangu ardal ddaearyddol y gorchymyn i ardaloedd penodol	22
Wedi bod yn dyst i achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â phobl ifanc yn achosi niwsans	20
Angen mwy o Heddlu ar y strydoedd	19

ATODIAD 1

Sôn am ymddygiad gwrthgymdeithasol cyffredinol megis nodwyddau/sbwriel wedi'u gollwng /pasio dŵr mewn mannau cyhoeddus/gwydrau wedi torri/gwylanod	13
Sôn am ddigartrefedd fel problem	13
Wedi rhoi'r gorau i ymweld â Bangor neu rannau o Fangor, ni ddim yn caniatáu i aelodau o'r teulu ymweld gan eu bod yn meddwl nad yw'n ddiogel.	11
Codi pryderon am nad oes adnoddau digonol i gefnogi pobl ddigartref neu bobl sy'n gaeth i gyffuriau neu alcohol	9
Cardota yn ymyl peiriannau arian parod yn broblem	8
Angen i'r Heddlu orfodi'r gyfraith yn ddigonol	8
Angen mynd i'r afael â'r cyflenwad o gyffuriau	8
Mwy o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc	8
O'r farn bod tafarndai a chlybiau ym Mangor ar agor am gyfnodau rhy hir, a bod gormod o drwyddedau hwyr.	6
Meddwl y bydd y gorchymyn yn symud y broblem i rywle arall	6
Nodi bod trethi busnes a chostau parcio yn niweidiol i'r Stryd Fawr	4
Angen mwy o Deledu Cylch Cyfyng	4
Rhieni i gymryd mwy o gyfrifoldeb	3
Na ddyled cerddorion stryd gael eu targedu o dan y gorchymyn	2
CYFANSWM	275

ATODIAD 1

Rhannwyd y wybodaeth uchod gyda'r Heddlu, a chynhaliwyd trafodaethau ynglŷn â'r ceisiadau am addasu ffin y gorchymyn (22 awgrym), a daethpwyd i'r casgliad fod ardal y gorchymyn am fod yn fwy

Rydym hefyd wedi cynnal trafodaethau gyda'r Heddlu am sut y gellid rhoi'r gorchymyn ar waith yn y lle cyntaf, gan gynnwys rhai adnoddau ychwanegol i'r Heddlu ar gyfer codi ymwybyddiaeth a gweithredu'r gorchymyn, ynghyd ag ymgysylltu gydag unigolion i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ganlyniadau ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus, a rhoi cyfleoedd i'r bobl fwyaf bregus dderbyn cymorth a chynghor.

Mae hyn yn cynnwys dosbarthu taflenni ymwybyddiaeth yn ystod cyfnod cynnar gweithredu'r gorchymyn, i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o ganlyniadau ymddygiad gwrthgymdeithasol o dan y gorchymyn hwn